

Gweithgaredd 1- Stori traddodiadol: [Y Lindysyn Llwglyd lawn-traddodiadol.MOV](#)

Gweithgaredd 2- Stori digidol: [Y Lindysyn Llwglyd lawn-digidol.mov](#)

Dadansoddiad y weithgareddau-

Caiff amlygiad i straeon o enedigaeth ehangu geirfa plentyn. Mae darllen straeon iddynt yn adeiladu sylfaenai ar gyfer dychymyg a chyfathrebiad. Creda Charalambous (dim dyddiad), taw cymysg o straeon wedi gwyllo, actio allan, wedi gwranddo a darllen yw'r ffordd gorau er mwyn ehangu geirfa plentyn ac agor ei dychymyg.

Mae darllen i blant yn darparu sawl budd. Cyn dwy oed, mae darllen straeon i blant yn helpu meddwl sylfaenol, creu perthnasoedd a bondio ag eraill, a hefyd yn cyflwyno geirfa newydd iddynt. Erbyn i blant cyrraedd pedair oed, bydd straeon gallu paratoi plant ar gyfer ysgol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib ehangu geirfa eto a llefaredd, adeiladu gwytnwch a llesiant. Hefyd, trwy ddarllen straeon i blant dair i bedair oed, bydd sgiliau meddwl, cof a chreadigrwydd yn datblygu a gwella (BookTrust, d.d). Caiff darllen i blant 5-8 oed dangos budd trwy wella gwybodaeth gyffredinol a chyrhaeddiad, trwy hefyd ehangu llesiant, gwytnwch a hunanhyder. Gall darllen i blant yr oedrannau yma dangos buddion mewn iaith a llefaredd trwy ehangu'r eirfa sydd gyda phlentyn.

Caiff ymchwil newydd ei datgelu gan Gyhoeddwy Harper Collins (2025), bod rhieni yn colli'r cariad o ddarllen yn uchel. Dangosir yr ystadegau bod mwy nag un ym mhump o fechgyn (22%) 0-2 oed, naill ddim yn cael stori, neu braidd byth yn cael stori gartref. Dim ond 29% o'r bechgyn yr oedran yma sydd yn cael stori'n ddyddiol. Caiff y ffigurau yma ei chymharu â merched, a dangosir bod 44% o ferched yr un oed yn derbyn stori'n ddyddiol. Mae hyn yn tanlinellu'r amlygiad cynnar i lyfrau.

Trwy ddarllen i blant, mae'n helpu ehangu dealltwriaeth o'r byd o'i chwmpas nhw. Gall amser stori helpu gwella iaith a llefaredd. Pan maent yn ifanc, mae plant yn pigo idiomaau a geirfa lan wrth wrando. Mae amser stori yn cymryd ni i lefydd gwahanol ac amseroedd gwahanol. Ar gyfer plant ifanc sydd dal yn meithrin dealltwriaeth o'r byd, yn deall tebygrwydd a hefyd gwrthgyferbyniadau rhwng diwylliannau gwahanol ac amgylcheddau, mae hyn yn bosib trwy naratif a phlotiau maent yn adnabod (Dubiel, dim dyddiad).

Pan maent yn dod i ddarllen straeon gyda phlant, un o'r pethau pwysicaf yw ymrwymiad. Os nad oes diddordeb gan y plentyn, ni fydden nhw'n aros ac eistedd am stori. Wrth ddarllen stori draddodiadol, dyma un peth sydd angen ystyried. Er mwyn cadw plant wedi ymrwymo yn y stori, gall cyfleoedd i'r plant ymuno mewn a chymryd rhan helpu tuag at gadw ymrwymiad yn ystod stori (Guppy a Hughes, 1999).

Dydw i ddim wedi defnyddio AI

Mae hi'n bosib i straeon traddodiadol galluogi'r darlennydd i addasu straeon ar yr unfan os oes angen. Gall hyn cynnwys newid geiriau sydd yn anodd i blant ddeall oherwydd geirfa ardaloedd gwahanol o gwmpas y wlad. Mae hi'n bosib gall hyn helpu cadw diddordeb plant yn y stori gan ddefnyddio geirfa gyfarwydd, enwedig os taw llyfr newydd yw hi. Bydd hyn gallu arwain at blant eisiau darllen, ac i ddyfalbarhau, enwedig plant tua ifanc gan ei bod yn dechrau dysgu yn yr ysgol.

Dull arall sydd yn cael ei defnyddio yn y fideos uchod yw bwerbwynt syml. Gall y dull yma hybu plant i ddechrau creu straeon ei hun. Mewn tro, mae hyn hefyd yn hybu plant i agor dychymyg er mwyn creu straeon ei hun. Mae'r llyfr Y Lindysyn Llwglyd lawn yn defnyddio sawl llun. Yn ôl Silaban et al. (2024), mae adeiladu creadigrwydd a dychymyg ym mhentyndod cynnar yn elfennau pwysig o fewn datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybodus. Llyfrau gyda lluniau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ysgogi'r elfennau yma.

Dangosir y fideo darllen stori ddigidol enghraifft o weithgaredd dan arweiniad athrawes. Defnyddia pobl y dull yma o adrodd stori er mwyn gwella ymrwymiad a hefyd er mwyn hybu a gwella rhyngweithio o fewn grwpiau. Caiff y dull yma ei ddefnyddio fel ffordd o gysylltu â'r plant. Trwy ddefnyddio dull digidol, mae'n hefyd bosib i addasu straeon er mwyn adeiladu perthnasoedd gyda phlant penodol. Gall straeon cael ei addasu i'w diddordebau nhw, er mwyn hybu darllen fel peth da hefyd.

Wrth gymharu dull stori ddigidol a dull stori draddodiadol, mae sawl tebygrwydd a sawl gwahaniaeth hefyd. Defnyddia straeon traddodiadol ciwiau geiriol, a hefyd ciwiau ddi-eiriau fel amrywiaeth yn nhôn llais ac ystumiadau a symudiadau er mwyn darllen i gynulleidfa. Yn wahanol i hyn, defnyddia straeon digidol adnoddau cyfryngau i flendio a chymysgu lluniau, fideo, sain a thestun er mwyn darparu stori ar-lein.

Un o'r prif wahaniaethau yn y ddau ddull yw ffocws y darlennydd. Wrth ddarllen y stori draddodiadol, mae ffocws a sylw yn cael ei darparu'n hawsach i'r plant yn hytrach na'r stori ddigidol. Gyda stori draddodiadol, nad yw'r tudalen yn symud o gwmpas ar ôl cael ei droi. Yn wahanol i hyn, mae rhai straeon digidol gallu gwneud hwn. Fodd bynnag, os nad yw'r darlennydd eisiau hyn i ddigwydd, mae modd newid hyn gyda rhai rhaglenni, fel ei bod dim ond yn symud yn syth o un dudalen i'r un nesaf.

Mae gan stori ddigidol yr allu i gael ei darllen yn unman. Mae'r defnydd o dechnoleg yn gwneud hyn yn hawdd rhannu dros y byd oherwydd y we. Yn wahanol i hyn, nid yw hyn yn bosib gyda straeon traddodiadol. Oherwydd ei bod yn rhywbeth cadarn, nid yw'n bosib cael hi mwy nag un lle ar y tro. Ni all straeon traddodiadol cael ei ddarllen dros y byd, oni bai bod y llyfrau ar gael yn y wlad, neu yn ddigidol. Achos hyn, mae straeon traddodiadol yn gyfyngedig i'r un ystafell mae'n cael ei ddarllen mewn.

Un peth sydd yn debyg yn y ddau ddull stori yw'r strwythur. Nid oes gwahaniaeth mewn stori os yw hi'n ddigidol neu'n draddodiadol. Mae geiriau tu fewn yr un peth, ac nid yw'r stori'n newid dim. Un gwahaniaeth yw, bod hi'n bosib addasu straeon digidol i gael animeiddiadau a fideos bach yng nghanol llyfr. Mae hyn yn ffordd dda o gadw plant wedi ymgysylltu a'r llyfrau, enwedig os oes anghenion fel ADHD gan y plentyn, sydd efallai'n ffeindio hi'n anodd canolbwyntio ar stori ac eistedd mewn un lle am gyfnod hir.

Trwy ailadrodd straeon i blant, mae hyn yn darparu mwy o gyfleoedd i blant cael ei effeithio gan y 'rym' [testun], ac i ddechrau deall beth gall straeon gwneud iddynt. Gall hyn cynnwys deall bod amgylcheddau, diwylliannau, gwledydd, ieithoedd a phrofiadau gwahanol, er gall hyn teimlo'n anghyfarwydd iddynt, mae dal yn bosib iddynt dal diddordeb oherwydd pa mor rhyfedd maent (Bower a Barrett, 2014). Yn ogystal â galluogi dealltwriaeth o'r byd, gall straeon sydd wedi cael ei ailadrodd ehangu geirfa plentyn.

Credodd y damcaniaethwr Jean Piaget mewn ailadrodd straeon. Ei gred ef oedd bod datblygiad ieithyddol yn ganlyniad i ddatblygiad gwybodus, nid y ffordd arall o gwmpas. Mae plant yn adeiladu sgema meddyliol (strwythurau gwybodaeth) trwy brofiadau. Fel canlyniad, mae plant dim ond gallu dysgu a defnyddio geirfa newydd pan fydd y datblygiad gwybodus yn barod amdanynt.

Mae Jean Aichison yn ieithydd o Loegr. Creda hi fod cyflymder dysgu yn cael ei dylanwadu gan allu cynhenid ac amgylchedd. Hefyd, creda hi fod iaith yn cael ei ddysgu yn rhannol trwy ddynwared. Caiff ystumiau a symudiadau effaith yn y rôl yma wrth adrodd stori, oherwydd mae'n bosib bod geirfa anghyfarwydd ynddo. Trwy ddefnyddio ystumiau a symudiadau, gall plant dysgu trwy symudiadau bod y gair yn meddwl yr un peth a rhywbeth arall. Mae defnyddio symudiadau ac ystumiau wrth ddweud stori yn ffordd dda o hybu llefaredd plant, trwy adael iddynt wneud cysylltiadau yng ngeirfa newydd. Yn ogystal â hyn, gall defnyddio symudiadau ac ystumiau hybu cynhwysiant i blant sydd ddim yn gallu siarad, trwy ddarparu cyfleoedd iddynt adrodd stori ac ymuno mewn hefyd.

Yn ganolog i ddatblygiad yw'r swyddogaethau gwreiddiol yr ymennydd, sydd yn cwmpasu galluoedd gwybyddol i ddatrys problemau, rhesymu a chynllunio. Mae datblygiad iaith yn ganolog i'r broses yma, trwy sianelau o chwarae dychmygol a'r dychymyg. Gall plant ifanc iawn meddwl a rhesymu am brofiadau a syniadau mewn ffordd soffistigedig (Bradbury a Swailes, 2022).

Mae hi'n bosib gwella llefaredd plant yn ystod y gweithgareddau yma trwy ailadrodd geirfa. Yn y llyfr Y Lindysyn Llwglyd lawn, mae sawl patrwm ailadroddus. Er mwyn hwyluso llefaredd plant, mae'n bosib i blant ailadrodd y frawddeg "ond roedd e dal i fod yn llwglyd!" Yn ogystal â hyn, mae'n bosib gwneud ystumiau a symudiadau trwy gydol y stori er mwyn dangos i'r plant bod pethau'n debyg yn y stori. Mae patrwm ailadroddus y llyfr yma cyfrannu at addysg Mathemateg trwy hybu cyfri. Yn ystod y stori, mae'r lindysyn yn bwyta mwy a mwy o fwyd, gyda'r nifer o fwyd yn cynyddu un yn ddyddiol. Mae hyn yn ffordd dda o hybu geirfa gynnar mathemateg.

Enghraifft posib o wneud hwn yw'r ail dudalen, lle mae'r haul yn codi. Wrth i'r darllenydd darllen y stori, mae'n codi dwylo fel bydd yr haul yn codi. Dyma ffordd dda o gyflwyno ystyr i eirfa newydd ac anghyfarwydd. Mae symudiadau ac ystumiau yn ffordd dda o helpu plant cadw gwybodaeth, ac wedi darganfod i wella deallusrwydd disgwrs. Yn ogystal â hyn, mae symudiadau ac ystumiau yn helpu plant dwyn i gof geirfa targed yn well (Ries, 2019).

Gan ddefnyddio patrwm ailadroddus, mae'r stori'n agored i addysgu plant am ddyddiau'r wythnos hefyd. Dechreu'r stori gyda Dydd Sul ac un ffrwyth ac yn dilyn patrwm a threfn yr wythnos, er enghraifft, un ar Ddydd Sul, dwy ar Ddydd Llun, dair ar Ddydd Mawrth ac yn y blaen. Dyma ffordd dda i gyflwyno cysyniad newydd i blant mewn ffordd byddant yn deall yn well na dim ond geiriau.

Mae gan straeon digidol sawl budd ac anfantais. Ar un llaw, ni fydd yn bosib i bawb darllen stori ddigidol ar y cyd mewn rhai ysgolion, ond ar y llaw arall, mae'n bosib cael amser stori ar y cyd fel un grŵp mawr. Wrth ddefnyddio straeon digidol, mae'n bosib gall plant ehangu sgiliau TGCh trwy ddysgu a darganfod sut i newid tudalen. Wrth gymharu â straeon traddodiadol, mae newid tudalen yn ddigidol yn anoddach, oherwydd mae cymaint o ffurf wahanol gwneud hyn. Mae rhaglennu gwahanol yn cael ffurf wahanol o wneud hyn, a hefyd, gall y ddyfais cael effaith ar sut i newid tudalen hefyd. Os mae stori'n cael ei arddangos ar sgrin fawr, mae'n bosib rhedeg mewn i'r broblem o orfod newid tudalen ar y cyfrifiadur, sy'n gallu cymryd amser i ffwrdd o'r stori, ac mewn tro, yn gallu colli diddordeb plant os mae'n cymryd rhy hir.

Gall newid tudalen fod yn sawl beth yn ddigidol. Mae hi'n bosib i blant newid tudalen trwy glicio ar y llygoden. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i blant defnyddio sgiliau echddygol manwl er mwyn arwain y llygoden i'r lle cywir ar y tudalen er mwyn troi a newid tudalen. Hefyd, er mwyn symud o un dudalen i'r llall, mae'n bosib sweipio'r

tudalen i'r chwith er mwyn troi'r tudalen i'r un nesaf. Allan o'r ffurf wahanol i gyd, dyma yw'r ffordd fwyaf tebyg i droi tudalen yn ymarferol a traddodiadol.

Cant o ieithoedd Malaguzzi yw fodel cysyniadol ar gyfer deall gwybodaeth a threfnu dysgu mewn ffordd sydd yn gwerthfawrogi'r unigrywiaeth plant a'i gallu i fod cymryd rhan yn llwyr trwy archwilio'n holistig gyda'i meddwl, corff a'i synhwyrdd (Bradbury a Swailes, 2022). Dywed y dull Reggio Emilia dylai'r amgylchedd dysgu bod y drydydd athro o fewn addysg. Er mwyn sicrhau hwn wrth ddarllen straeon, mae'n bosib sicrhau bod straeon yn addas ac yn berthnasol i fywydau ac amgylchedd y plant. Mae'n bosib i athrawon a phlant cydweithio gan ddefnyddio straeon digidol. I rai, gall defnyddio technoleg fod yn waith caled, enwedig os nad yw'r person yn gyfforddus neu hyderus yn defnyddio TGCh.

Rhestr cyfeirnod-

BookTrust (dim dyddiad) *The Benefits of Reading*. Ar gael ar:

<https://www.booktrust.org.uk/resources/reading-benefits/> [Wedi darllen 20 Hydref 2025].

Bower a Barrett, (2014), *Developing Early Literacy 0 to 8. From theory to practice*. SAGE Publications, Llundain. [Wedi darllen 26 Hydref 2025].

Bradbury A a Swailes R, (2022), *Early Childhood Theories Today*. SAGE Publications, Llundain, (tud. 61), [Wedi darllen 26 Hydref 2025].

Bradbury A a Swailes R, (2022), *Early Childhood Theories Today*. SAGE Publications, Llundain, (tud. 74), [Wedi darllen 26 Hydref 2025].

Charalambous A (dim dyddiad) *Why is storytelling important to children?* Ar gael ar:

<https://www.bbc.co.uk/teach/articles/zvqcnrd> [Wedi gwyllo 20 Hydref 2025].

Dubiel J, (dim dyddiad). *The Crucial Role of Storytelling in Early Childhood Education*. Ar

gael ar: <https://www.booktrust.org.uk/resources/find-resources/the-crucial-role-of-storytelling-in-early-childhood-education/> [Wedi darllen 20 Hydref 2025].

Guppy P a Hughes M, (1999), *The Development of Independent reading*. Open University Press, Llundain (tud. 41), [Wedi darllen 26 Hydref 2025].

Harper Collins Publishers (2025), '*New Research reveals that parents are losing the love of reading aloud*', Ar gael ar <https://corporate.harpercollins.co.uk/press-releases/new->

[research-reveals-that-parents-are-losing-the-love-of-reading-aloud/](#) [Wedi darllen 20 Hydref 2025].

Ries B (2019), *Gestures During Storytelling Help Young Children's Developing Brains*, Ar gael ar: <https://www.thepattersonfoundation.org/blog/gestures-during-storytelling-help-young-children's-developing-brains.html> [Wedi darllen 26 Hydref 2025].

Silaban R, et al., (2024) *Building creativity and imagination in early years childhood through picture storybooks*. Ar gael ar: <https://doi.org/10.69929/talitakum.v3i1.13> [Wedi darllen 26 Hydref 2025].